# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Sir y Fflint (Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyf.)

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Sir y Fflint i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

## 1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Sir y Fflint bob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Sir y Fflint 8 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Darperir gwasanaethau llyfrgell yn Sir y Fflint gan Aura Leisure and Libraries Ltd ar ran yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth wedi cynnal ei safle i raddau helaeth yn ystod tair blynedd y fframwaith, ac mae Sir y Fflint yn un o dri awdurdod lleol yn unig a fodlonodd 8 o'r dangosyddion ansawdd yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae Sir y Fflint hefyd yn un o bedwar gwasanaeth yn unig a fodlonodd y targed caffael (Dangosydd Ansawdd 9) a'r awdurdod hwnnw sydd wedi gwario'r swm uchaf ar adnoddau/deunyddiau gwybodaeth ledled Cymru. Felly, mae'r gostyngiad yn nifer y defnyddwyr ac ymwelwyr yn destun siom, yn enwedig o ystyried yr ymgysylltiad cryf â chwsmeriaid a ffocws cymunedol y gwasanaeth. Er na fu unrhyw newidiadau sylweddol i lefelau staffio ers 2017/18, mae cyfanswm nifer y staff cymwysedig yn y chwartel isaf yng Nghymru. Nododd y gwasanaeth ei fod wedi ymrwymo i gadw gwasanaethau a staff ar eu lefelau presennol.

- Mae pob llyfrgell sefydlog yn parhau i ddarparu ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol, ac mae iechyd a llesiant yn cael eu cefnogi'n dda hefyd. Gwelwyd cynnydd o 75% yn nifer y grwpiau darllen sydd wedi'u sefydlu er 2018/19.
- Er 2017/18, gwelwyd gostyngiad mewn defnydd o'r gwasanaeth ac mewn ymweliadau corfforol, ac erbyn hyn mae benthyciadau llyfrau oedolion yn y chwartel isaf yng Nghymru. Er hyn, mae benthyciadau llyfrau plant yn parhau yn uwch na'r canolrif yng Nghymru, ac mae wedi cynyddu yn 2019/20.
- Mae Sir y Fflint yn parhau yn un o bedwar awdurdod yn unig sydd wedi cyflawni'r targed ar gyfer nifer yr eitemau sydd wedi'u caffael (DA 9).
- At ei gilydd, mae lefelau staffio wedi'u cynnal drwy gydol y fframwaith, ac fel pob gwasanaeth yng Nghymru mae'r targedau yn y maes hwn heb eu cyflawni.
- Mae'r oriau agor blynyddol cyfanredol wedi gostwng ychydig er 2018/19, ac maent wedi gostwng 16% ers blwyddyn adrodd gyntaf y fframwaith; er bod y targed yma'n parhau heb ei gyflawni.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i

awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

## 2.1 Hawliau craidd

Parhaodd gwasanaeth llyfrgell Sir y Fflint i gyflawni pob un o'r 12 Hawl Graidd yn llawn. Sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru yn 2019 i drawsnewid Llyfrgell y Fflint yn lle mwy modern a hyblyg. Cynhaliwyd y lansiad swyddogol ym mis Mawrth 2020. Mae'r gwasanaeth yn parhau i seilio ei ddarpariaeth graidd ar iechyd a llesiant, darllen, gwybodaeth a digidol, a diwylliant a chreadigrwydd. Yr ethos sydd wrth graidd y gwasanaeth yw datblygu llyfrgelloedd sy'n gonglfaen i fywyd cymunedol Sir y Fflint.

## 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith COVID-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o'r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O'r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019/20, mae Sir y Fflint, yn cyflawni 8 ohonynt yn llawn ac 1 ohonynt yn rhannol.

| Dangosydd Ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol | | Cyflawni'n llawn |
| a) Cymorth TGCh | √ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | √ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | √ | |
| d) Datblygu darllenwyr | √ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawni'n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | √ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | √ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | √ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw | √ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | √ | |
| DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth | √ | Cyflawni'n llawn |
| DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Cyflawni'n llawn |
| Derbyniadau fesul pen y boblogaeth | √ | |
| <u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen | x | |
| DA 10 – Adnoddau Cymraeg | | Cyflawni'n llawn |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg | √ | |
| <u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen | √ | |
| DA 11 – Mynediad ar-lein: | | Cyflawni'n llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd | √ | |
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | √ | |
| DA 12 – Cyflenwi ceisiadau | | Cyflawni'n llawn |
| a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod | √ | |
| b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod | √ | |
| DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff fesul pen y boblogaeth | x | |
| ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth | x | |
| iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | √ | |
| DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth | √ | Cyflawni'n llawn |

Mae Sir y Fflint yn un o bedwar awdurdod lleol yn unig sydd wedi cyflawni 8 DA yn llawn ac 1 yn rhannol. At ei gilydd, mae Sir y Fflint wedi cynnal ei berfformiad yn nhrydedd flwyddyn y chweched fframwaith.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Sir y Fflint ei arolwg oedolion a'i arolwg plant ym mis Tachwedd 2018, a darparodd sylwadau ar berfformiad y gwasanaeth yn adroddiad 2018/19.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 90% | *=11/19* | 60% | 90% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 86% | *=12/19* | 41% | 85% | 99% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Sir y Fflint bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Grŵp sgwrs Gymraeg – mae'r grŵp hwn yn galluogi unigolion i ymarfer siarad Cymraeg mewn amgylchedd cyfeillgar ac anffurfiol yn y llyfrgell. Mae hwn yn amgylchedd cefnogol lle mae'r dysgwyr yn gallu ymlacio, ac mae hyn wedi eu helpu i gael mwy o hyder wrth ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.
- Ffrindiau Darllen – effaith grŵp 'Ffrindiau Darllen' o'r enw 'Chatabout' a sefydlwyd yn Llyfrgell y Fflint. Gwyddom am fanteision darllen ar y cyd, ac aeth un unigolyn arbennig i'r grŵp er mwyn datblygu hyder i gyfarfod â phobl ar ôl cyfnod ymaith o'r gwaith. Mae'r grŵp hwn yn ffordd o gyfarfod pobl newydd a rhannu storïau, ac mae ganddo nifer o fanteision amhrisiadwy, gan gynnwys helpu i leihau gorbryder a gwella llesiant.
- Dysgu Fy Ffordd I – cwrs sgiliau TGCh ar-lein. Mae unigolyn di-waith â chyfrifoldebau gofalu'n disgrifio sut y gwnaeth y cwrs roi sgiliau a hyder iddo i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a chwilio am gyfleoedd gwaith ar-lein. Yn ogystal, drwy fynd i'r grŵp, llwyddodd yr unigolyn i ddarganfod gweithgareddau cymdeithasol eraill sydd o fudd iddo ef a'i deulu.
- Iechyd meddwl cadarnhaol – effaith gadarnhaol gwirfoddoli yn y llyfrgell ar iechyd meddwl. Drwy wirfoddoli mae unigolyn wedi ailgysylltu â man lle dechreuodd ei hoes weithio. Mae'r profiad wedi gwella ei hiechyd meddwl a'i galluogi i oresgyn nifer o anawsterau, ac mae wedi bod o fudd mawr i'w hiechyd meddwl, gan roi cyfle iddi ryngweithio'n gymdeithasol a chael diddordeb newydd mewn bywyd bob dydd.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y mannau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Sir y Fflint ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2018/19* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | | *[Fframwaith 6]* |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 83% | *=8/18* | 25% | 75% | 94% | *dd/b* |
| c) iechyd a lles | 79% | *6/19* | 38% | 69% | 96% | *dd/b* |
| d) lle diogel a chroesawgar | 99% | *=2/19* | 90% | 96% | 100% | *dd/b* |
| DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | | *[Fframwaith 6]* |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | 91% | *=7/18* | 78% | 91% | 99% | *dd/b* |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | 99% | *=3/18* | 88% | 97% | 100% | *dd/b* |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | 91% | *=5/17* | 65% | 85% | 99% | *dd/b* |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol; | 97% | *=10/18* | 85% | 96% | 100% | *dd/b* |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | 9.3 | *=7/19* | 8.0 | 9.1 | 9.5 | *dd/b* |
| DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell[1] | | | | | | |
| a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth | 3,740 | *13/22* | 2429 | 3987 | 6874 | *3,992* |
| b) rhith-ymweliadau fesul pen | 407 | *18/22* | 239 | 909 | 2131 | *393* |
| c) benthycwyr gweithredol fesul pen | 113 | *18/22* | 78 | 145 | 244 | *116* |
| DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen[2] | 528 | *15/22* | 311 | 680 | 1468 | *504* |
| DA 11 – Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron fesul 10,000 | 7 | *19/22* | 4 | 9 | 14 | *7* |
| c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 18% | *19/22* | 14% | 30% | 64% | *14%* |
| DA 14 – Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen | £8,394 | *19/22* | £7,260 | £12,448 | £23,333 | *£9,142* |
| b) % ar staff | 64% | *9/22* | 48% | 61% | 76% | *60%* |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 22% | *1/22* | 5% | 13% | 22% | *21%* |
| % ar offer ac adeiladau | 7% | *=8/22* | 0% | 8% | 28% | *10%* |
| % ar gostau gweithredol eraill | 7% | *18/22* | 1% | 18% | 35% | *9%* |
| c) gwariant cyfalaf fesul pen | £2,311 | *3/22* | £0 | £1,567 | £13,027 | *£0* |
| DA 16 – Oriau agor[3] | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 3.96% | *22/22* | 0.00% | 0.23% | 3.96% | *0.06%* |
| b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 1.42% | *16/22* | 0.00% | 1.07% | 5.41% | *0.56%* |

*[1] rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; [2] fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; [3] Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).*

## 3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

### 3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)[i]

Cynhaliodd Sir y Fflint ei arolwg o oedolion a'i arolwg plant ym mis Tachwedd 2018. Mae pob llyfrgell sefydlog yn parhau i ddarparu ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol, ac mae iechyd a llesiant yn cael eu cefnogi'n dda hefyd. Gwelwyd cynnydd o 75%

yn nifer y grwpiau darllen sydd wedi'u sefydlu er 2018/19. Mae cyfleusterau TGCh a Wi-Fi wedi'u diweddaru a chynigir gwybodaeth a sgiliau llythrennedd digidol i gwsmeriaid drwy sesiynau bydis TG ym mhob llyfrgell. Mae gan y llyfrgell ymrwymiad cryf i ddarpariaeth ar gyfer amrywiaeth, a darperir hyfforddiant Ystyriol o Ddementia ac Awtistiaeth i'r staff. Cymerodd pob llyfrgell ran yn Her Ddarllen yr Haf, a'r Mis Ymwybyddiaeth o Sgamiau yn Awst 2019.

### 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)[ii]

Mae cau pob llyfrgell ar 20 Mawrth 2020 oherwydd Covid-19 hefyd wedi effeithio ar y defnydd o lyfrgelloedd. Mae Sir y Fflint yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth. Er 2017/18, gwelwyd gostyngiad mewn defnydd ac mewn ymweliadau corfforol, ac mae benthyciadau llyfrau oedolion bellach yn y chwartel isaf yng Nghymru. Er hyn, mae benthyciadau llyfrau plant yn parhau'n uwch na'r canolrif yng Nghymru, ac mae wedi cynyddu yn 2019/20. Er bod aelodaeth o lyfrgelloedd wedi bod yn amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, mae wedi cynyddu 7.8% er 2017/18. Fel y rhan fwyaf o'r gwasanaethau ledled Cymru, mae nifer yr ymweliadau â gwefan y gwasanaeth a nifer y lawrlwythiadau electronig wedi cynyddu. At ei gilydd, mae'r sefyllfa yr un fath ag yr oedd yn 2018/19, ar wahân i ffigurau sy'n gysylltiedig â benthyciadau llyfrau oedolion.

### 3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)[iii]

Mae Sir y Fflint wedi gweld gostyngiad o 29% yn y gyllideb ddeunyddiau ers blwyddyn adrodd gyntaf y fframwaith. Er hyn, mae Sir y Fflint yn parhau'n un o bum awdurdod yn unig sy'n cyflawni'r targed ar gyfer nifer yr eitemau sydd wedi'u caffael (DA 9), ac mae'r gwariant fesul pen o'r boblogaeth yn uwch na'r canolrif yng Nghymru. Mae cyfanswm y gwariant ar y deunyddiau i blant hefyd yn uwch na'r canolrif. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r targedau ar gyfer gwariant ar adnoddau Cymraeg (DA 10), er bod nifer y benthyciadau Cymraeg yn is na'r canolrif yng Nghymru. Mae'r gofynion mewn cysylltiad â chyflenwi ceisiadau, ac adrodd ar geisiadau wedi'u bodloni o fewn y sir, yn parhau i gael eu cyflawni, ac mae'r safonau wedi bod yn cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall er 2017/18. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron personol wedi'i chynnal ar lefelau 2017/18, a gwelwyd cynnydd yn y defnydd ohonynt. Er bod hyn yn rhoi Sir y Fflint yn y chwartel isaf yng Nghymru, mae hwn yn welliant o'i gymharu â lefelau 2017/18 a 2018/19 lle'r oedd y defnydd yn is nag yn unrhyw awdurdod arall yng Nghymru.

### 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)[iv]

At ei gilydd, mae lefelau staffio wedi'u cynnal drwy gydol y fframwaith, ac fel ym mhob gwasanaeth yng Nghymru mae'r targedau yn y maes hwn heb eu cyflawni. Mae Sir y Fflint yn parhau yn y chwartel isaf yng Nghymru ar gyfer cyfanswm y lefelau staffio a'r lefelau staffio proffesiynol. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn bodoli o hyd, ac mae cynnal lefelau staffio proffesiynol er 2017/18 yn gadarnhaol.

Mae cyfanswm y gwriant refeniw wedi gostwng 10% er 2017/18, ond ni ddisgwylir rhagor o ostyngiad. Mae'r oriau agor blynyddol cyfanredol wedi gostwng ychydig er 2018/19, ac wedi gostwng 16% ers blwyddyn adrodd gyntaf y fframwaith; er bod y targed yma yn parhau i gael ei gyflawni, mae oriau agor fesul pen o'r boblogaeth yn is na'r canolrif yng Nghymru. Fel y nodwyd yn gynharach, mae Sir y Fflint yn parhau i gofnodi lefel uchel o

oriau agor di-staff o ganlyniad i leoli rhai canghennau ar yr un safle â chyfleusterau hamdden.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o’r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae’r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a’i nodau strategol. Darparodd Sir y Fflint adroddiad cynhwysfawr yn nodi sut y mae’r gwasanaeth yn effeithio ar nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys iechyd a llesiant. Mae Sir y Fflint yn tynnu sylw at waith ar y cyd â chydweithwyr yn y maes hwn, er enghraifft MIND, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant aelodau o’r gymuned leol. Mae’r blaenoriaethau a amlinellwyd yng nghynllun busnes Aura hefyd yn cynnwys gwella sgiliau i bobl leol. Mae hyn yn cynnwys menter gyflogadwyedd gymunedol o’r enw ‘Camu Ymlaen a Gwella eich Sgiliau gydag Aura’, rhaglen sy’n ceisio ymgysylltu â’r gymuned a darparu cyfleoedd i unigolion ddatblygu sgiliau newydd a gwella eu siawns o gael gwaith. Mae’r gwasanaeth hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar gymunedau Cydnerth a Chydlynus, ynghyd â hyrwyddo Diwylliant Bywiog lle mae’r Iaith Gymraeg yn Ffynnu.

## 5 Cyfeiriad i’r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddilynol, nodir bod y weledigaeth ehangach ar gyfer y gwasanaeth wedi’i hamlinellu yng Nghynllun Busnes Aura: 2018-2023. Oherwydd Covid-19 y blaenoriaethau presennol yw sicrhau bod gwasanaethau’n parhau’n hygyrch a diogel i bawb. Bydd pwyslais parhaus ar ddatblygu’r ddarpariaeth ddigidol, a bydd platfform e-lyfrau arall yn cael ei brynu. Mae’r gwasanaeth hefyd yn nodi ymrwymiad i ddangos effaith gymdeithasol llyfrgelloedd fel tystiolaeth o effaith gadarnhaol llyfrgelloedd yn Sir y Fflint ar fywydau pobl. Gosodir hyn yng nghyd-destun heriau ariannol, sy’n parhau i gael lle blaenllaw gan Aura.

## 6 Casgliad

Darperir gwasanaethau llyfrgell yn Sir y Fflint gan Aura Leisure and Libraries Ltd ar ran yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth wedi cynnal ei safle i raddau helaeth yn ystod tair blynedd y fframwaith, ac mae Sir y Fflint yn un o dri awdurdod lleol yn unig a fodlonodd 8 o'r dangosyddion ansawdd yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae Sir y Fflint hefyd yn un o bedwar gwasanaeth yn unig a fodlonodd y targed caffael (Dangosydd Ansawdd 9) a’r awdurdod hwnnw sydd wedi gwario’r swm uchaf ar adnoddau/deunyddiau gwybodaeth ledled Cymru. Felly, mae’r gostyngiad yn nifer y defnyddwyr ac ymwelwyr yn destun siom, yn enwedig o ystyried yr ymgysylltiad cryf â chwsmeriaid a ffocws cymunedol y gwasanaeth. Er na fu unrhyw newidiadau sylweddol i lefelau staffio ers 2017/18, mae cyfanswm nifer y staff cymwysedig yn y chwartel isaf yng Nghymru. Nododd y gwasanaeth ei fod wedi ymrwymo i gadw gwasanaethau a staff ar eu lefelau presennol.

---

[i] *Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.*

[ii] *Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.*

[iii] *Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.*

[iv] *Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.*